Cyngor Cymuned Llanwnda

# COFNODION
# TACHWEDD 2007

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 21ain Tachwedd, 2007 |
| **AMSER** | 7yh |
| **LLEOLIAD** | Cae'r Gors, **RHOSGADFAN** |
| **PRESENNOL** | Tom Ellis (Cad), Emrys Jones, Elwyn Jones, Jason Hunt, Elin Evans, Nerys Evans, Jane Eryl Jones, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Huw Williams, Meurig Williams, Neal Williams |

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**
GVT, NW, GLW – cais cynllunio Mountain Rangers
TE – llythyr Trystan Larsen

4. **Cadarnhau cofnodion**
Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) Angen trefnu fod y gangiau cymunedol yn dod i dorri'r eithin ac ati yn y pentrefi. Clerc wedi cysylltu ac wedi cael gwybod fod problemau ynglyn a thorri'r eithin, roeddynt wedi cael cwynion fod y ffosydd yn dyfn a'u bod yn beryglus ar ôl clirio'r eithin y tro diwethaf. Clerc i gysylltu eto i ofyn wrthynt wneud y gwaith gan fod y ffosydd yn llenwi a chreu problemau yn y ffyrdd.
   b) MW – angen pwyso eto fod chwe toriad gwrychoedd yn digwydd yn flynyddol.
   c) Cwynion eto ynglyn â pobl yn parcio o flaen y gysgodfan fysiau yn Penyffridd. Clerc i gysylltu efo'r wardeiniaid a'r heddlu.
   d) ElJ – angen gofyn wrth gwmni Rheilffordd Eryri dorri'r gwrychoedd ger Dolellog ac ar y bont ger Wernlas Ddu – clerc eisoes wedi sgwennu i ofyn wrth y cwmni wneud y gwaith, angen cadw llygad ar y sefyllfa.
   e) Cynllun Uwchgwyrfai – gwaith wedi cychwyn & ymateb gan y Cynulliad. Angen anfon llythyr at Gyngor Cymuned Llandwrog er mwyn iddyn nhw a ninnau bwyso ar Cymad i orffen y gwaith mor fuan â phosib. Angen gofyn wrth Cyngor Gwynedd os mai nhw sy'n gyfrifol am y giatiau bellach.
   f) Mater o'r cyfarfod diwethaf - gweinyddiaeth Mynwent Hermon - cafwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru yn nodi nad oes rheidrwydd ar Gyngor Cymuned i ofalu am fynwentydd. Aelodau yn penderfynu felly i beidio cymryd y cyfrifoldeb.Cafwyd llythyr hefyd yn cwyno am y sefyllfa bresennol gan Mr.Ian Rowland Spice. Angen anfon nodyn yn cydnabod derbyn y llythyr a danfon copi at yr ysgrifennydd.

g) *Filter lane* Ffrwd Cae Du – ymateb gan y Cynulliad. Nodi nad oes bwriad i wneud y gwaith yma, gan fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer ffordd osgoi.
h) Materion diogelwch Rhostryfan – Mel Fôn wedi gofyn am awgrymiadau ar leoliadau'r cerbyd Arrive Alive – clerc wedi anfon rhestr.
i) Lês Lein Bryngwyn – clerc i geisio cael diweddariad gan Wyn Williams, Cyngor Gwynedd.
j) Copi o lythyr anfonwyd at Dewi Tomos ynglyn a safle cofeb Kate Roberts gan Steffan Jones, yn nodi fod y garregfaen bellach yn Inigo Jones ac y bydd yn cael ei gosod mewn safle diogel oddi ar y ffordd ger Lôn Wen.
k) Parcio ger 3&4 Bro Wyled – ymateb gan Richard W.Roberts, Rheolwr Datblygu Eiddo, Cyngor Gwynedd, yn nodi nad ydy'n fwriad gennynt greu llefydd parcio gan na fyddai'n fanteisiol i'w tenantiaid hwy. Awgrymant y dylai llefydd parcio gael eu creu ger rhif 7, ond gwrthodwyd hyn gan yr aelodau gan na fyddai'n goresgyn y broblem bresennol sy'n bodoli yng ngwaelod y ffordd. Clerc i ofyn i gael cyfarfod safle i drafod ymhellach.
l) Derbyniwyd llythyr o gwyn gan Mr.Trystan Larsen, Pennaeth Ysgol Rhostryfan, ynglyn a gwartheg sy'n pori ar Lein Bryngwyn. Rhoddwyd gwybod i'r perchennog am y broblem, ac mae wedi gaddo rhoi cloeon ar y giatiau er mwyn cadw'r gwartheg oddi ar y lein yn y dyfodol. Roedd am bwysleisio nad oedd y gwartheg wedi'u rhoi yno'n fwriadol.
m) Ymateb gan Meirion Williams, Peirannydd Ardal Arfon yn dilyn cais i edrych ar broblemau dwr wyneb sydd ar y ffyrdd, gordyfiant coed a Polyn BT yn Rhos Isaf. Problemau dwr – wedi archwilio'r problemau yma eisoes ac wedi methu darganfod tarddiad y dwr. Peth gwaith wedi'i drefnu i agor sianelau ger Maen Brith a Penyceunant, ac maent wedi'n sicrhau y bydd graeanu cyson yn digwydd yn ystod y gaeaf. Gordyfiant coed – nid ydynt yn teimlo fod hyn yn creu gormod o broblemau, angen cadw golwg ar y sefyllfa. Polyn BT – nodi fod y polyn wedi'i osod ers rhai blynyddoedd ac maent am ofyn wrth yr Uned Draffig ymweld â'r safle. Clerc i atgoffa BT unwaith eto.
n) Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – mabwysiadwyd y cynllun ar Hydref 23ain gan Gyngor Gwynedd.
o) Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr – adroddiad blynyddol.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

| | |
|---|---|
| Cyfri Cadw: | 20,916.21 |
| Cyfri Siec: | 2,670.50 |
| CYFANSWM | |
| Cyflog/costau clerc – mis Tachwedd (& ad-daliad codiad cyflog o fis Ebrill yn unol a graddfeydd Un Llais Cymru – codi o £8.38 i £8.60 yr awr) | 456.63 |
| Cyllid y Wlad | 111.12 |
| Hacker Young – archwilwyr allanol | 158.63 |
| John Dryhurst Roberts – archwilydd mewnol | 63.00 |
| Neuadd Llanwnda | 6.00 |

Ceisiadau am nawdd:
Eisteddfod yr Urdd, Lleu, Cymdeithas y Byddar a Theatr Bara Caws – i'w hystyried mis Mawrth
Ambiwlans Awyr – wedi derbyn gair o ddiolch.

22,791.33

GWEDDILL

**Materion Cynllunio**

CO7A/0696/24/YA – Tyddyn Bychan, Dinas – codi sied amaethyddol – eisoes wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan Gyngor Gwyned – angen eglurhâd o hyn. Hefyd angen esbonio sut ceir hawl i sied amaethyddol os na chedwir anifeiliaid ynddi?

CO7A/0783/24/YA – Ty Newydd, Rhos Isaf – codi sied amaethyddol newydd – aelodau'n teimlo fod y sied yn rhy fawr ac nad ydy'n gweddu gan fod edrychiad 'commercial' yn hytrach nag amaethyddol ar y cynllun.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO7A/0746/24/LL – Clwb Mountain Rangers, Rhosgadfan – gosod container i wneud ystafelloedd newid

CO7A/0791/24/LL – Glanrhyd Isaf, Llanwnda – creu mynedfa gerbydol

Eisoes wedi'u caniatau:
Tan yr Ardd, Rhostryfan – estyniad
Trem Arfon, Rhosgadfan – codi tri 3
CO7A/0678/24/HY – mynedfa Ty Hen, Llanwnda – gosod arwydd newydd
CO7A/0739/24/CC – Hen Efail, Bontnewydd – torri sycamor
CO7A/0711/24/LL – tir ger Tai Gwel y Don, Llanwnda – adeiladu ty newydd
CO7A/0700/24/CC – tir ger Wernas, Rhos Isaf - gwaith i goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed
CO7A/0479/24/CR – Cefn 'Rhengwrt, Llandwrog - rendro tair simdde
CO7A/0658/24/LL – Trem Arfon, Rhosgadfan – trosi, addasu ac ymestyn ty i ffurfio 3 ty a mannau parcio

**Gohebiaeth:**

a) Cyngor Iechyd Cymuned – cynnig ar gyfer ymgynghoriad pellach – dyfodol gwasanaethau llawfeddygaeth y fron yn Ysbyty Llandudno - holiadur
b) Bwrdd Iechyd Lleol – strategaeth Cyflawni'r Weledigaeth Gyda'n Gilydd
c) Cyngor Gwynedd – Cynllun Gwella Gwynedd 2007 - adroddiad ar weithgareddau Cyngor Gwynedd dros y flwyddyn a'r prif faterion fydd yn cael sylw dros y flwyddyn nesaf.
d) Un Llais Cymru – bwletin Arfon/Dwyfor
e) Cylchgronnau
f) Llythyr gan Dewi Tomos ar ran Bwrdd Rheoli Canolfan Kate Roberts yn diolch i'r cyngor cymuned am ddwyn perswâd ar Gyngor Gwynedd i glirio safle'r gofeb ar Lôn Wen. Sôn hefyd eu bod yn chwilio am nawdd ar gyfer pecyn dehongli fydd yn cynnwys ail osod y lechen a gosod byrddau dehongli ychwanegol.
g) Cais am nawdd gan Ian Rowland Spice, Ysgrifennydd Clwb Pêl Droed Rhosgadfan (clwb newydd ar gyfer plant o dan 15 oed). Clwb sydd wedi cael ei ffurfio ym mis Hydref eleni. Gan mai ond ddwywaith y flwyddyn y bydd Cyngor Llanwnda yn trafod nawdd, sef mis Hydref a mis Mawrth, bydd y cais hwn yn cael ei ystyried ym mis Mawrth.
h) Cafwyd copi o gylchlythyr cyntaf 'Law yn Llaw' – cynllun partneriaeth iechyd sy'n ceisio barn y cyhoedd a chleifion o'r gwasanaeth sydd ar gael. Nododd JEJ fod y cynllun yn dda iawn ac mae'n rhagweld y bydd cyfle i bawb gydweithio'n effeithiol iawn. Ceir mwy o fanylion ar www.gogleddorllewincymru.org

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) GLW – wedi cael cwyn ynglyn a gordyfiant coed mewn gardd – nodwyd mai mater preifat ydy hyn rhwng y ddau berchennog ac felly ni all y Cyngor weithredu.

b) GLW – ffosydd heibio Isfryn yn llawn o gerrig o'r waliau yn dilyn gwaith torri gwrychoedd

**c)** Nododd NW fod cais wedi dod i gyfrannu torch flodau tuag at wasanaeth coffa oedd wedi'i drefnu yn y Clwb yn Rhosagdfan ar Sul y Cofio. Penderfynodd y Clerc a'r Cadeirydd fod hyn yn dderbyniol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45p.m.